

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 9fed Tachwedd, 2020, drwy gyfrwng 'zoom' o 7.30 p.m. hyd 7.50 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Elin Hughes (Cadeiryddes)
 Y Cyngorydd Dylan Parry Jones (Is-Gadeirydd)
 Y Cyngorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Ifor Owen, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams
 Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)

47. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Gadeiryddes yr aelodau i'r cyfarfod a llongyfarchodd y Clarc a'r teulu ar enedigaeth Mali Cain.

48. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni ddatganwyd diddordeb mewn unrhyw eitem oedd i'w drafod.

49. CADARNHAU COFNODION

(a) Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 12fed Hydref, 2020. Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Dylan Parry Jones ac eiliwyd gan Y Cyngorydd Glyn Roberts.

MATERION YN CODI –**(1) Eitem 39 – Cadarnhau Cofnodion – is-gymal 3 (Eitem 24) Llywodraethwyr Ysgol Pont-y-Gof, Botwnnog (tudalen 1)**

Adroddodd y Clarc nad oedd wedi derbyn unrhyw ohebiaeth o Gyngor Gwynedd ynglyn ag enwebu Llywodraethwr ar y Corff i Ysgol Pont-y-Gof, Botwnnog. Dywedodd Y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir, fod y Brifathrawes yn ymwybodol o'r enwebiad newydd ac fod cyfarfod wedi ei drefnu o'r Corff ar gyfer y wythnos ddilynol ac y byddai'r Cyngorydd Gwenan Griffith yn cael gwahoddiad.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

(2) Eitem 39 – Cadarnhau Cofnodion – is-gymal 4 (Eitem 36) Plannu Bylbiau (tudalen 2)

Adroddodd Y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir, i'r fenter o blannu bylbiau fynd yn dda ac fod grant o £160 gan AHNE Llŷn wedi cael ei sicrhau gyda'r cymal fod £40 yn cael ei gyfrannu gan y Cyngor Cymdeithas, hyn yn gwneud y cyfanswm o £200 am y bylbiau. Oherwydd y cyfyngiadau presennol nid oedd yn ymarferol gofyn i Glwb Ffermwyr Ifanc Rhiw gynorthwyo felly bu i'r Cyngorydd roi neges ar y gwefannau cymdeithasol yn gofyn am gymorth. Bu'r ymateb yn eithriadol o galonogol gyda dros ugain o wirforddolwyr, a gwnaed y gwaith yn ddiraffferth. Drwy gyfrwng y cofnodion hyn diolchodd y Cyngorydd Williams i oll o'r gwirfoddolwyr.

Cytunodd y Cyngor i gyfrannu £40 at y prosiect hwn a gwnaed hynny o dan y 'Local Government (Wales) Measure 2011' cymal 'well being' gan y tybir y byddai harddu'r ardal yn llesol i'r gymuned ac felly yn syrthio o dan y canllawiau isod (fersiwn Saesneg yn unig)

"power to incur expenditure to improve the economic, social and environmental well-being of community/town."

Awdurodwyd y taliad o dan eitem 'awdurdod i dalu.

Penderfynwyd derbyn a gweithredu'n unol a'r uchod. (Cynigwyd gan Y Cyngorydd David Brunelli, eilwyd gan Y Cyngorydd Sion Williams gyda pawb yn cytuno).

(3) Eitem 41 – Materion Ffyrdd a Llwybrau (tudalen 2)

Nodwyd nad oedd Y Swyddog Llwybrau wedi bod mewn cysylltiad â'r Cyngorydd Ifor Owen ynglyn a llwybr Pengopa na chamfa ger Argraig, Sarn. Hefyd addawodd Y Cyngorydd Carys Evans y byddai'n cael golwg ar Lwybr Bach, Botwnnog, ac yn rhoi gwybod i'r Clarc os na fyddai'r gwaith wedi ei wneud.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

Adroddwyd ymhellach i'r Cyngorydd Glyn Roberts a'r Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir, gyfarfod a Mr. Caradog Williams o'r Adran Ffyrdd, Cyngor Gwynedd, ar y safle ger Ty Newydd/Neuadd Goffa, Sarn, i drafod y broblem o ddŵr yn llifo i lawr yr allt ac yn troi i fewn i faes parcio'r Neuadd.

Addawodd Mr. Caradog Williams y byddai'n dod yn ôl ac adrodd ymhellach. I fyny i ddyddiad y Cyngor nid oedd dim wedi ei dderbyn.

(4) Eitem 46 – Archwiliad y cyfrifon i fyny i 31ain Mawrth, 2020

Adroddodd y Clarc mai dal i ddisgwyl clywed gan y BDO yr oedd ynglyn ag archwiliad y cyfrifon.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

(b) Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd 23ain Hydref, 2020. (Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Siôn Williams, eilwyd gan Y Cyngorydd Glyn Roberts gyda phawb yn gytun).

50. CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

- (a) Cais C20/0749/32/LL – dymchwel tri modurdy a chodi un modurdy yn eu lle at ddibenion preifat – I Pentre, Botwnnog.
- (b) Cais C20/0698/32/DT – agor mynedfa gerbydol newydd, ymestyn gardd ddomestig a gwaith peirianyddol i newid lefelau tir gan gynnwys creu gofod parcio newydd – Efail Glandwr, Sarn Mellteyrn (cynlluniau diwygiedig).
- (c) Cais C20/0508/32/LL – adeilad amaethyddol arfaethedig ar gyfer storio amaethyddol a da byw – Y Glyn, Penygroeslon.

Penderfynwyd cefnogi'r tri cais.

Yn y cyswllt hwn, tynnodd aelod sylw iddo dderbyn cŵyn gan aelod o'r cyhoedd fod mynedfa newydd wedi ei chreu yn Hebron Stores, Llangwnnadi, er rhoi carafan yng nghwrtel y tŷ. Credir nad oes cais cynllunio wedi ei gyflwyno ar gyfer y fynedfa newydd.

Penderfynwyd anfon y gŵyn ymlaen i'r Adran Gynllunio yng Nghyngor Gwynedd.

51. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
Ni ddaethpwyd ag unrhyw fater i sylw'r Cyngor.

52. **MATERION IECHYD**

(a) Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

(b) **Tynnodd** Y Cyngorydd Siôn Williams sylw at y nam oedd ar y system ffôn ym Meddygfa Rhydbach, Botwnnog lle 'roedd y ffonau yn rhoddi signalau eu bod yn brysur ac yna'n torri i ffwrdd. Addawodd y Clarc gael gair a Mr. Dave Shaw, Y Rheolwr a dyma fraslun o'r hyn oedd ganddo i'w ddweud ddiwrnod wedi'r cyfarfod:

'Roedd Mr. Shaw yn hynod o ddiolchgar i ni am dynnu ei sylw ond yr oedd yn ymwybodol o'r ffaith ac mae BT wedi bod yn gweithio ar y system yr wythnos ddiwethaf ac hefyd heddiw (10/11/2020). 'Roedd y ffon yn canu yn y Feddygfa ac yna pan 'roedd y Derbynydd yn ei chodi 'roedd yn torri i ffwrdd.

Nid oedd wedi cael unrhyw gŵyn heddiw (10/11/2020), felly mae'n cymryd fod popeth yn awr yn gweithio.

'Roedd yn derbyn fod y sefyllfa wedi bod yn hollol annerbyniol ac yn rhwystredig iawn i'r cleifion oedd yn cysylltu a'r Feddygfa ond sicrhodd fod popeth wedi cael ei wneud i geisio adfer y sefyllfa mor fuan a bo modd.

Wrth ddiweddu dywedodd fod croeso i mi gysylltu ag ef, ar ran y Cyngor, os oedd unrhyw bryder yn cael ei dderbyn gan yr aelodau gan efallai nad oedd yn ymwybodol ohonynt.

53. **UN LLAIS CYMRU**

Cyflwynwyd cais i enwebu cynrychiolwyr Un Llais Cymru, Ardal Arfon/Dwyfor. Y cynrychiolwyr presennol oedd Y Cyngorwyr David Bruelli ag Elin Hughes.
Penderfynwyd ail enwebu'r cynrychiolwyr.

54. **YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL**

Cyflwynwyd llythyr Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio Cyngor Gwynedd ynglyn a'r uchod – 'roedd copi o lythyr yr Arweinydd wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen lle 'roedd linc i gael mwy o wybodaeth. Sylwyd fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn agored o'r 16eg Hydref hyd 27ain Tachwedd, 2020.

Penderfynwyd fod yr aelodau i gael golwg ar y ddogfen ac os yr oeddynt yn awyddus i anfon sylwadau ar y cyfryw eu bod i gysylltu'n uniongyrchol â'r Clarc cyn 27ain Tachwedd. (Nodyn – ni dderbyniwyd unrhyw sylwad cyn y dyddiad).

55. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

Tyddyn Sachau am fylbiau £200 (siec 200709)
(Gweler cofnod 49 (cymal 2) – tudalen 1 o'r cofnodion hyn)

Cyngor Gwynedd – archwilio mewnol £174 (siec 200710)

56. **ARCHWILIAD Y CYFRIFON I FYNY I 31ain MAWRTH, 2020**
Adroddodd y Clarc nad oedd adroddiad y BDO i law hyd yn hyn.

57. **AWYR DYWYLL**

Gofynnodd Y Cyngorydd Glyn Roberts am eglurdeb beth yn hollol oedd 'statws awyr dywyll'. Eglurodd y Gadeiryddes fod Pen Llŷn yn un o'r llefydd gorau yng Ngymru ar gyfer gweld awyr dywyll y nos heb lawer o lygredd golau artiffisial. Mae yna brosiect ar hyn o bryd ar y cyd rhwng Parc Cenedlaethol Eryri, AHNE Llŷn, AHNE Ynys Môn ac AHNE Bryniau Clwyd er mwyn dathlu a hyrwyddo ein awyr dywyll arbennig.

Mae yna fwriad cael statws arbennig i Ben Llŷn am safon yr awyr dywyll sydd yma. Addawodd y byddai'n rhoi diweddariad i gyfarfod nesaf y Cyngor.